Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Datganiad i'r wasg/Press release

NR01MGKE **Date / Dyddiad: 16/01/2020**

CYMRAEG ISOD

New All Wales fishing byelaws come into force

New byelaws which will help protect increasingly vulnerable and threatened stocks of salmon and sea trout in rivers wholly in Wales are in place for the 2020 season.

The byelaws came into force on 1st January and will be in place for 10 years and mean all salmon caught by rod and net fisheries must be released alive with minimum injury and delay.

Measures have also been introduced to help protect sea trout in many of our rivers, with all rod-caught sea trout over 60cm to be released alive.

In addition, new controls on angling methods will improve the survival of released fish so that they can contribute to spawning stocks.

Currently the only exceptions are the cross-border Dee and Wye rivers where we continue to work with Welsh Government on the process to confirm new rod fishing byelaws in the next few weeks.

Peter Gough, Principal Fisheries Advisor for Natural Resources Wales, said:

"All of our salmon stocks are in serious trouble and have fallen to historically low levels. The same is true of the majority (70%) of our sea trout stocks.

"Over the past five years, we have engaged in a thorough process to set out the evidence to justify introduction of new fishing regulations to help protect these vulnerable stocks.

"After an inquiry that explored the evidence, the Minister for Environment, Energy and Rural Affairs approved new rod and net fishing byelaws to help protect these iconic fish.

“Even relatively small numbers of fish are crucial to recover stocks in as short a time as possible. Every spawning fish matters.”

In addition, and as required by the Minister, NRW continues to work with our partners and Welsh Government to identify and address the range of pressures damaging stocks. “

Peter added:

“We firmly believe that the new byelaws, along with a range of other urgent measures such as tackling agricultural pollution, improving water quality, improving habitats and managing potential threats from predators, are vital for the future of salmon and sea trout in Wales.

“We want to work with the fishing communities and all with a stake in our river environments to protect our fish and fisheries for future generations to enjoy. The byelaws will be a positive step in helping protect stocks.”

Notes to Editors:

Communications office: 029 2046 4227 / communications@naturalresources.wales (24hrs)

- Natural Resources Wales is a Welsh Government Sponsored Body. Its purpose is to ensure that the natural resources of Wales are sustainably maintained, enhanced and used, now and in the future

- For more information www.naturalresources.wales

Is-ddeddfau pysgota Cymru gyfan newydd yn dod i rym

Mae is-ddeddfau newydd a fydd yn helpu i ddiogelu stociau o eogiaid a brithyllod y môr sy'n gynyddol fregus ac o dan fygythiad mewn afonydd sydd wedi'u lleoli o fewn Cymru yn gyfan gwbl mewn grym ar gyfer tymor 2020.

Daeth yr is-ddeddfau i rym ar 1 Ionawr a byddant ar waith am ddeng mlynedd ac maent yn golygu bod rhaid i'r holl eogiaid sy'n cael eu dal gan bysgodfeydd gwialen a rhwyd gael eu rhyddhau yn fyw heb fawr o niwed ac oedi.

Mae mesurau hefyd wedi'u cyflwyno i helpu i ddiogelu brithyllod y môr mewn nifer o'n hafonydd, ac mae'n rhaid rhyddhau pob brithyll y môr dros 60 cm sydd wedi'i ddal gan wialen yn fyw.

Yn ogystal, bydd rheolaethau newydd ar ddulliau genweirio yn gwella goroesiad pysgod sydd wedi'u rhyddhau fel y gallant gyfrannu at stociau silio.

Ar hyn o bryd, yr unig eithriadau yw afonydd trawsffiniol afon Dyfrdwy ac afon Gwy, lle rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y broses i gadarnhau is-ddeddfau pysgota â gwialen newydd yn ystod yr wythnosau nesaf.

Dywedodd Peter Gough, Prif Gynghorydd Pysgodfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru:

“Mae ein holl stociau o eogiaid mewn perygl difrifol ac mae eu niferoedd wedi syrthio i lefelau hanesyddol isel. Gellir dweud yr un peth am y rhan fwyaf (70%) o’n stociau o frithyllod y môr.

“Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi cymryd rhan mewn proses drylwyr i nodi'r dystiolaeth er mwyn cyfiawnhau cyflwyno rheoliadau pysgota newydd i helpu i ddiogelu'r stociau bregus hyn.

“Yn dilyn ymchwiliad a archwiliodd y dystiolaeth, cymeradwyodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig is-ddeddfau newydd ar gyfer pysgota â gwialen a rhwyd er mwyn helpu i ddiogelu'r pysgod eiconig hyn.

“Mae hyd yn oed niferoedd bychain o bysgod yn hanfodol er mwyn adfer stociau mewn cyn lleied o amser â phosibl. Mae pob pysgodyn sy'n silio yn cyfrif.”

Yn ogystal, ac fel sy'n ofynnol gan y Gweinidog, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio gyda'n partneriaid a Llywodraeth Cymru er mwyn nodi a mynd i'r afael ag ystod o bethau sy'n difrodi stociau. “

Ychwanegodd Peter:

“Credwn yn gryf fod yr is-ddeddfau newydd, yn ogystal ag ystod o fesurau brys eraill fel mynd i'r afael â llygredd amaethyddol, gwella ansawdd dŵr, gwella cynefinoedd a rheoli bygythiadau posibl gan ysglyfaethwyr, yn hanfodol ar gyfer dyfodol eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru.

“Rydym am weithio gyda'r cymunedau sy'n pysgota a phawb sydd â rhan i'w chwarae yn amgylcheddau ein hafonydd er mwyn diogelu ein pysgod a physgodfeydd fel y gall cenedlaethau'r dyfodol eu mwynhau. Bydd yr is-ddeddfau yn gam cadarnhaol i helpu i ddiogelu stociau.”

Diwedd

DIWEDD

Gwybodaeth i olygyddion

Swyddfa cyfathrebu: 029 2046 4227 / cyfathrebu@cyfoethnaturiol.cymru *(24awr)*

- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ei ddiben yw sicrhau cynnal, gwella a defnyddio adnoddau naturiol Cymru yn gynaladwy, heddiw ac yn y dyfodol.

- Am ragor o wybodaeth www.cyfoethnaturiol.cymru